



26.9.11

Annwyl Riant/Warcheidwad

Mawr werthfawrogir y manteision a gaiff eich plentyn o gael cyfrifiadur gartref, ond hoffwn dynnu eich sylw at y problemau a all godi o gamddefnyddio'r rhyngwrwd gartref. Mae sawl enghraifft o hyn, sef:-

- Defnyddio E-bost i ffraeo, galw enwau neu fygwth
- Defnyddio 'Sgwrsfan' gyda ffrindiau neu ddieithriaid ar gyfer gwneud ffrindiau, bygwth neu gamdriniaeth geiriol
- Creu gwefannau i fychanu, gwawdio neu gysylltu ag eraill.

Rydym fel ysgol yn ymwybodol bod llawer o blant yn treulio amser maith yn defnyddio'r rhyngwrwd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein. Deallwn y gall hyn fod yn fuddiol ar gyfer pwrpasau addysgol ac ymchwilio ond am resymau diogelwch hoffem bwysleisio'r angen i fonitro defnydd eich plentyn o'r rhyngwrwd yn ofalus.

Trefnwyd i Swyddog Cyswllt yr Heddlu ddod i'r ysgol i drafod gyda'r disgyblion iau am Ddiogelwch ar y Rhyngwrwd, ac mae'r adran Technoleg Gwybodaeth yn yr ysgol yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r gweithdrefnau diogelwch a'r protocol angenrheidiol wrth ddefnyddio'r rhyngwrwd. Fodd bynnag, daethom yn ymwybodol o broblemau yn datblygu oherwydd camddefnydd o'r rhyngwrwd gartref.

Mae'r gweithdrefnau diogelwch yn system yr ysgol a'r monitro agos o ddefnydd mewn gwersi yn sicrhau nad oes cyfle i gamddefnyddio'r rhyngwrwd yn yr ysgol; ond, gall camddefnydd gartref greu problemau cymdeithasol i'r plant yn yr ysgol gan fod dadleuon ac anghytundebau yn cael effaith ar berthnasau cymdeithasol gydag eraill.

Yn ffodus, mae digwyddiadau o'r fath yn gymharol brin, ond rwyf yn ymwybodol bod staff yn treulio amser fwy fwy yn delio gyda digwyddiadau sy'n codi oherwydd camddefnydd o'r rhyngwrwd adref. Yn yr un modd y mae'r staff yn bryderus am yr effaith ar blant, ac am y problemau diogelwch a all godi i unigolion. Tra rydym yn gwneud popeth y gallwn i sicrhau defnydd priodol o'r rhyngwrwd yn yr ysgol, ni allwn fod yn gyfrifol am y defnydd o'r rhyngwrwd gartref.

Erfyniwn arnoch i fonitro defnydd eich plentyn o'r rhyngwrwd yn ofalus ac i ystyried defnyddio'r dulliau rheoli a/neu feddalwedd blocio y mae eich darparwr gwasanaeth wedi eu cynnwys ar gyfer rhieni. Yn y ffordd yma fe allwch sicrhau diogelwch cyson i'ch plentyn.

Diolch yn fawr iawn.

Yn gywir,

Eifion Jones

Pennaeth

X:Word:Llythyr Diogelwch y Rhyngwrwd